

>Mantais y model hwn yw'r defnydd o un thema sydd yn ddi-dori'r plant a'r cyfleoedd i gysylltu ar draws y meysydd dysgu arall er mwyn cymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd i amrywiaeth o gyd-destunau eraill (**Barnes**, 2015, t.69).

>Trwy'r defnydd o themâu, gellir uno addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm (**Barnes**, 2015, t. 69) er mwyn creu profiadau a bydd yn dwysau'r dysgu a chysylltu'r dysgu gyda bywyd pob dydd er mwyn annog plant i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu (**Kerry**, 2011)

>Wrth i athrawon hyderus, gwybodus defnyddio themâu i addysgu yn eu gwersi gellir **ysgogi ac ysbrydoli** disgyblion (**Barnes**, 2015) mewn modd sydd yn creu **cysylltiadau effeithiol** ar draws y cwricwlwm a chysylltu'r tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd i hybu sgiliau'r disgyblion.

>Mantais arall o'r model hwn yw ei bod yn cysylltu'n effeithiol gydag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Gan ddefnyddio'r model Thema Seiliedig mae'n caniatâi bod y saith maes dysgu'n cysylltu'n esmwyth. Nodir "**Mae'r saith Maes Dysgu yn ateb ei gilydd**" (**APADGOS**, 2008, t. 5) awgrymir hyn bod defnyddio'r model yn creu cysylltiadau rhwng y meysydd a fydd yn **atgyfnerthu sgiliau** disgyblion mewn gwahanol gyd-destunau ac yn darparu digon o **gyfleoedd** iddynt gymhwyso eu sgiliau i weithgareddau arall yn y thema.

>Mae'r model thema seiliedig yn darparu **cyfleoedd diddiwedd** i ddisgyblion dysgu mewn gwahanol ffyrdd, megis tu fewn, tu allan, trwy brofiadau, trwy chwarae, oherwydd y maes eang o gynllunio sydd ar gael i athrawon.

Cyfyngiadau

>Ystyrir y model dewisol ac mae angen **gwybodaeth pwnc** da ar athrawon ar draws y meysydd er mwyn iddynt wneud y **cysylltiadau effeithiol** rhwng y meysydd dysgu er mwyn **uno**'r sgiliau a datblygu **dilyniant** mewn dysgu'r disgyblion.

>Mae angen **dealltwriaeth** gadarn o'r **cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd** a sut i gynnwys yn effeithiol yng ngwersi a chysylltu gyda'r gweithgareddau yn y thema. Mae angen i'r gweithgareddau datblygu medrau **llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol** i disgyblion er mwyn iddynt wneud **cynnnydd** ar draws y meysydd (**Donaldson**, 2015)

>Fodd bynnag, ar adegau gall y model creu **cysylltiadau ansylweddol** ac amcanion aneglur i'r disgyblion (**Barnes**, 2015), o ganlyniad i gynnwys y cwricwlwm a bod athrawon medru cysylltu gweithgareddau **digyswllt** i'r thema er mwyn addysgu'r sgil penodol i'r disgybl.

>Cyfyngiad y model hwn yw bod angen i'r disgyblion **caffael** y sgil yn y pwnc gwreiddiol cyn cymhwyso'r sgil ar draws y meysydd arall, wedyn gellir cynnig cyd-destunau cyfoethog lle gellir **cryfhau, ymestyn a chymhwyso'r sgiliau** (**Donaldson**, 2015, t. 40) ar draws y cwricwlwm.

>Anfantais arall wrth ystyried y model hwn yw bod tebygoliaeth o ffocysu ar rai meysydd dysgu yn fwy, oherwydd y thema. O ganlyniad i hyn, awgrymir dewis pedwar maes dysgu i gysylltu i'r thema er mwyn **osgoi**r cysylltiadau flug ar draws y meysydd (**Grigg**, 2015).

Model Thema Seiliedig (Barnes, 2015, t. 69)

Arbrawf – Beth sy'n digwydd i'r corff ar ôl gwneud ymarfer corff

Bydd y disgyblion yn ymgymryd mewn gwers ymarfer corff ac ar ôl ni fyddent yn **disgrifio'r hyn sy'n digwydd i'w hanadl a sut y maent yn ymddangos ac yn teimlo ar ôl gwneud ymarfer corff** (APADGOS, 2015, t. 47). Hefyd byddent yn gallu **deall ac adnabod y newidiadau sy'n digwydd i'w cyrrff wrth iddynt wneud ymarfer corff, a disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w hanadl, cyflfynder curiad eu calon, eu hymddangosiad a'u teimladau** (APADGOS, 2015, t.11) Wrth wneud hyn byddent yn **cyfrannu i drafodaethau, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad** (APADGOS, 2015, t. 17) am beth ddigwyddodd iddynt ar ôl gwneud yr ymarfer corff. Cofnodir **y data a gesglir mewn amrywiaeth o fformatau priodol**, megis creu graff ar J2e.(FICD, 2016)

Didoli bwydydd i categorïau.

Darparir profiadau sy'n caniatâu iddynt wneud dewisiadau iach, a datblygu a deall eu cyrrff eu hunain a sut y gallant eu cadw'n iach (APADGOS, 2015, t. 10). Trwy roi categorïau bwyd megis, iach/afiach, protein, carbohydrad,siwgr, mae'r plant yn **didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio mwy na dau faen prawf** (APADGOS, 2015, t. 21) er mwyn wella eu dealltwriaeth o fwydydd iach. Defnyddir eu sgiliau llafar er mwyn **cyfrannu at y drafodaeth ond hefyd gwrandao ar eraill gan ganolbwyntio.** (APADGOS, 2015)

Darlen ar y Cyd - Stori Mel Morgwn.

Wrth ddarllen y stori bydd y dysgwyr yn **siarad am y dewisiadau sydd ar gael, a thrafod p'un a yw'r dewisiadau gorau i'r ysgol, hefyd yn ystyried bod gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymhleth.** (APADGOS, 2015, t. 11) Wrth ddefnyddio eu gwybodaeth am fwyd iach. Hefyd yn **mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill** (APADGOS, 2015, t. 43) Wrth ddarllen byddent yn defnyddio **amrywiaeth o strategaethau darllen** (APADGOS, 2015, t. 21) ac yn defnyddio eu gwybodaeth o'r llyfr a'u defnyddio i **esbonio'r manylion** perthnasol. (APADGOS, 2015, t. 21)

Coginio Bwyd Iach –

Yn y gweithgaredd hwn, bydd y dysgwyr yn **datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod y mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig er mwyn cael corff iach** (APADGOS, 2015, t. 11) trwy ddefnyddio **unedau safonol i bwysu gwrthrychau.** (APADGOS, 2015, t. 35) Datblygir medrau llafar wrth **gynnig atebion priodol i gwestiynau** (APADGOS, 2015, t. 14) wrth herio'r plant am wahanol fwydydd a phwysau o fwydydd gwahanol.

Rhesymeg - Model Thema Seiliedig

Dewiswyd y model "Thema Seiliedig" (**Barnes**, 2015) oherwydd y cyfleoedd i feithrin dealltwriaeth dda yn y **cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd**, lle gellir **cryfhau, ymestyn a chymhwyso** eu sgiliau mewn **cyd-destunau cyfoethog.** (**Donaldson**, 2015: 40) Cysyllta'r thema dan sylw yn uniongyrchol i **Bedwar Diben** gan **Donaldson** (2015), er noda bod dylai dysgwyr bod yn **unigolion iach, hyderus** a fydd yn gwybod am effaith deiet ac ymarfer corff ar eu bywyd, gwneud penderfyniadau iach a gwybod sut i ddod o hyd i wybodaeth i gadw'n iach a diogel.

Wrth ddefnyddio **Maes Dysgu Iechyd a Lles** fel y pwnc unigol, caniateir i ymdrin â phryderon a materion bywyd pob dydd, ond hefyd ymateb i faterion cenedlaethol. Cyhoedda Nod Liesiant, "**Cymru iachach**" a chysylltir gyda'r model hwn er bod cyfleoedd i ddisgyblion dysgu am bwysigrwydd eu hiechyd a sut i ofalu am eu hun ar gyfer y dyfodol. (**Deddf Liesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, 2015)

Methodoleg - Model Thema Seiliedig

Tacsonomeg Bloom - Defnyddir i gwestiynu'r disgyblion er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth am y pwnc dan sylw, wrth ddefnyddio gellir cwestiynu ar lefelau gwahanol i herio'r plant a sicrhau eu dealltwriaeth am y pwnc dan sylw. Wrth ofyn ystod o gwestiynau gan ddefnyddio'r lefelau gwahanol o **Dacsonomeg Bloom** mae'n caniatâu cyfleoedd i herio'r disgyblion ac ymestyn eu sgiliau meddwl (**Grigg**, 2015). Wrth ddefnyddio, caniateir i ddatblygu sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth am y thema dan sylw.

Darlen ar y Cyd – Defnyddir y strategaeth hon er mwyn **hybu sgiliau darllen** pawb yn y dosbarth. Mae'n gyfle i'r plant rhannu syniadau a'u gwybodaeth trwy drafodaethau llafar, ond hefyd yn galluogi'r plant i ddarllen geirfa newydd a chyfarwyddo gyda'r eirfa gyda chymorth yr athrawes. I gynorthwyo'r sgiliau darllen, mae'r athrawes yn atgyfnerthu'r **patrymau iaith a phatrymau geiriau**; megis geirfa aml eu defnydd, i dynnu sylw at yr **iaith** trwy ddefnyddio eu gwybodaeth ffoneg flaenorol. Wrth i bawb ddarllen y llyfr ar y cyd, mae'r athrawes yn gallu **modelu** i'r plant ac yn **arddangos elfennau pwysig o ddarllen**, megis ble i ddechrau a darparu cyfleoedd arbennig i fwynhau, trafod ac ymateb i'r straeon (**Estyn**, 2007).

Y Ffordd Ymlaen

Gwêl enghraifft o **arfer dda** yn ysgol a leolir yn Sir Caerffili wrth **addysgu'n drawsgwricwlaidd** gan gynnwys defnydd effeithiol o'r **FFLIRH** a'r **FICD**. Nodir bod yr ysgol yn "**sicrhau bod disgyblion yn cael llw o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu**" (**Estyn**, 2016) ar draws y cwricwlwm trwy ystod o weithgareddau trawsgwricwlaidd. Darparir cyfleoedd dysgu dychmygus ac **ysgogol** i ddisgyblion dysgu trwy themâu a sonnir bod hyn wedi sicrhau cymhelliant y disgyblion a chynnnydd ar draws y cwricwlwm (**Estyn**, 2016). Wrth addysgu'n drawsgwricwlaidd, nododd bod y disgyblion yn gwneud **cynnnydd** ar eu medrau **llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol** cysylltir gyda'r athro **Donaldson** (2015) oherwydd ei fwrriad bod y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd yn sicrhau cynnydd ar draws y meysydd Dysgu. Felly wrth ddefnyddio'r model '**Hierarchaidd**' a'r model '**Thema Seiliedig**' gellir defnyddio fel ffyrdd i sicrhau bod sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu **datblygu ar draws y cwricwlwm ehangach**.

Wrth ystyried y pwyntiau uchod, ategir bod dull addysgu trawsgwricwlaidd gan ddefnyddio'r model '**Thema Seiliedig**' yn cwmpasu nifer o bynciau a'r cyfle i gysylltu mewn modd sydd yn hybu sgiliau'r plant a'r defnydd o'r **FLIRH** a'r **FICD** i sicrhau bod medrau disgyblion yn cael eu datblygu'n drawsgwricwlaidd. Hefyd, caniatâ'r model cyfleoedd addysgu cyfoethog gan ddefnyddio nifer o ardaloedd dysgu, megis tu allan ac ymweliadau addysgol er mwyn hybu'r sgiliau mae'r plant yn dysgu. Wrth addysgu trwy'r dull hwn, gellir defnyddio'r plant fel rhan hanfodol o'r cynllunio. Gwêl enghraifft arall o **arfer dda** gan ysgol yn Sir Gaerfyrddin, dywed "**mai llais y disgybl yw'r ffocws i'w holl gynllunio, darpariaeth ac arfarniadau.**" (**Estyn**, 2014) Wrth ddefnyddio **llais y disgybl**, nododd eu bod yn "**galluogi disgyblion i gyflawni eu llawn botensial, yn academiaidd ac yn gymdeithasol**" (**Estyn**, 2014). Felly, wrth addysgu'n drawsgwricwlaidd gan ddefnyddio'r model '**Thema Seiliedig**,' argymhellir defnyddio llais y disgybl er mwyn dilyn **diddordeb y disgyblion** a sicrhau bod y gweithgareddau yn **berthnasol** iddynt.

Ystyrir y model '**Hierarchaidd**' fel dull addysgu'n drawsgwricwlaidd, credir bydd y model yn gymorth i **atgyfnerthu sgiliau** a ddysga'r disgyblion er mwyn iddynt **gymhwyso'r sgiliau** ar draws nifer o feysydd dysgu a deall pwrpas i beth maent yn eu dysgu. Gan ddefnyddio unrhyw dau faes dysgu yn y model hwn, ceir cyfleoedd i uno meysydd dysgu er mwyn atgyfyrddu cynnwys y cwricwlwm mewn ffordd **integredig** sydd â **dilyniant** perthnasol i'r disgyblion. Yn y model hwn, wrth i'r maes dysgu blaenaf cael eu dyrchafu gan y maes dysgu arall, caniateir bod y ddau faes dysgu yn cael eu datblygu (**Barnes**, 2015) ac yn sicrhau bod y ddau yn derbyn ffocws yn y cwricwlwm. Argymhellir bod athrawon yn defnyddio'r model hwn wrth ystyried **dim ond dau faes dysgu** sydd yn cael eu defnyddio i hwyluso'r dysgu, ceir cyfleoedd trawsgwricwlaidd effeithiol wrth ddewis meysydd dysgu cysylltiedig, ond mae angen ystyried y cysylltiad rhwng y meysydd er mwyn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol o fewn y model '**Hierarchaidd**'.

Methodoleg - Model Hierarchaidd

Strategaeth hybu sgiliau trafod- **Time to Talk-** (**Gross**, 2017). Datblygir sgiliau iaith a chyfathrebu yn y model hwn gan ddefnyddio strategaethau megis rhyngweithio gyda phartneriaid a chyd-weithio mewn grwpiau. Noda Gross (2017) bod plant yn cyflawni'n well pe byddent â chyfleoedd i drafod yn rhesymegol yn y dosbarth. Wrth ddarparu cyfleoedd i blant drafod yn y gweithgareddau dan sylw, datblygir sgiliau **llythrennedd** megis trafod a gwrandao mewn cyd-destunau gwahanol, oherwydd caniateir cyfleoedd i'r plant rhyngweithio.

Cefnoga **Banerjee** et al (2016) gan nodir bod sgiliau llafar yn allweddol er mwyn i blant ddod yn fwy gymwys i gyfathrebu eu syniadau, meddyliau a'u hemosiynau. Ategir hyn bod angen i blant datblygu eu medrau llafar er mwyn mynegi eu hun ar draws nifer o gyd-destunau gwahanol. Mae sgiliau llafaredd yn holl bwysig o ran medrau **llythrennedd**, oherwydd mae'r gallu i ysgrifennu a darllen yn dibynnu ar allu disgybl yn eu llafar, dwedir eu bod hi'n "amhosibl dysgu darllen ac ysgrifennu heb yn gyntaf deall a defnyddio iaith" mewn cyd-destunau gwahanol. Felly, wrth i blant derbyn y cyfleoedd o fewn y model hwn i drafod, caniateir eu sgiliau datblygol yn y cyfrifoldeb **llythrennedd**.

Rhesymeg - Model Hierarchaidd

Dewiswyd y model "**Hierarchaidd**" oherwydd y cyfle i gysylltu meysydd dysgu gyda'i gilydd mewn modd i ddysgu'n drawsgwricwlaidd, gan ddefnyddio'r tri chyfrifoldeb i gyfoethogi'r dysgu. Wrth ddefnyddio Maes Dysgu 'Y Dyniaethau' (Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd) gyda Maes Dysgu Iechyd a Lles (ABCh) Caniateir cyfleoedd i ddisgyblion meithrin sgiliau newydd yn y meysydd gan ystyried materion sydd yn berthnasol i fywyd pob dydd.

Cysylltir hyn a **Donaldson** (2015), gan nodir bod angen i ddisgyblion magu dealltwriaeth am faterion pob dydd, felly gan fod y plant yn dysgu am Fasnach Deg maent yn meithrin sgiliau newydd am swyddi, arian a bwydydd iach.

Model Hierarchaidd

(Barnes, 2015, t. 67)

Pwnc A: Iechyd a Lles

Yn ystod y gweithgaredd mae'r plant yn **datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg, a bod yn barod i gyfaddawdu** (APADGOS, 2015, t.10) gan ffocysu ar Fasnach deg a'r materion ariannol sydd yn cysylltu. Yn ystod hyn dylai'r plant **gyfrannu i drafodaethau, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad** â mynegi eu teimladau/syniadau am y daith mae bwydydd yn gwneud cyn cyrraedd y siopau. Yn ystod y gweithgareddau, mae'r plant yn **datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod y mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig er mwyn cael corff iach.** Wrth ddysgu am fwydydd masnach deg, gall y plant casglu data ynglŷn â hoff fwyd masnach deg y dosbarth a **chofnodi'r data a gesglir mewn amrywiaeth o fformatau priodol** megis creu graff ar J2e (FICD, 2016).

Gwell dealltwriaeth:

Pwnc A.

Gan ddysgu am fwydydd iach a bwydydd Masnach Deg mae'n galluogi'r dysgwyr i **archwilio ac arbrofi** safbwyntiau pobl eraill sydd yn rhan o'r broses. Gan ddefnyddio'r dau Maes Dygsu, mae'n annog disgyblion i ffedwl yn **foesegol** (Donaldson, 2015) sydd yn gysylltiedig i'r ddau maes, ac yn datblygu 'r gallu i **fynegi a chyfleu gwahanol deimladau** (APADGOS, 2015, t. 10) gan ystyried Masnach Deg. Mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach am fwydydd iach a sut mae'r bwydydd yn ein cyrraedd ni.

Pwnc B: Y Dyniaethau

Yn y gweithgaredd mae'r plant yn **mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill**, gan eu bod yn trafod y swyddi sydd yn rhan o'r broses Masnach Deg. Wrth wneud hyn gellir **defnyddio mapiau syml er mwyn darganfod ble y mae lleoedd penodol**, APADGOS, 2015, t. 43) megis darganfod o ble mae'r fanana yn dod. Yn y gweithgaredd, wrth edrych o ble mae'r bwyd Masnach deg yn dod, darparir cyfle i **ddefnyddio gwahanol gyfluniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1**, APADGOS, 2015, t.34) gan ddefnyddio bwydydd Masnach Deg o wahanol lefydd. Defnyddir y disgyblion eu medrau llafar wrth iddynt **wrandao ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwytiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen.** (APADGOS, 2015, t.15)

Manteision

>Nodir bod y model hwn yn ffordd rhwydd i **addysgu'n drawsgwricwlaidd** wrth ystyried cynnwys y cwricwlwm (**Barnes**, 2015), oherwydd gellir addysgu sgil yn un maes dysgu gan ddefnyddio maes dysgu arall i **gefnogi'r** addysgu wrth ddarparu **cyfleoedd** i'r disgyblion **gymhwyso** eu sgiliau a ddysgwyd ar draws y meysydd arall.

>Mantais y model hwn yw'r **cyfleoedd** i gyflawni **cynnnydd** yn un maes dysgu gan ddefnyddio elfennau o faes dysgu arall i **gefnogi'r** hyn sydd yn cael eu dysgu (**Barnes**, 2015). Darparir cyfleoedd i ddysgu'n drawsgwricwlaidd wrth **gymhwyso** nifer o sgiliau i un is-thema penodol (**Barnes**, 2015) er mwyn i ddisgyblion creu cysylltiadau rhwng y ddau faes dysgu.

>Mantais arall o'r model yw'r **cyfleoedd** i ddysgu sgil yn un Maes Dysgu a'i **gymhwyso** ar draws meysydd arall i gryfhau'r sgil ac i ddisgyblion deall **pwrpas** o ddysgu'r sgil benodol. Nodir bod angen creu **cysylltiadau** ar draws y cwricwlwm mewn modd **ystyrlon a pherthnasol** (**Rose**, 2009) er mwyn i ddisgyblion deall **sut i gymhwyso'r sgiliau** a ddysgir ar draws y meysydd dysgu. Cefnoga **Donaldson** (2015) hyn, dywed wrth addysgu mae angen **cysylltu'r meysydd dysgu** er mwyn i blant derbyn y **cyfleoedd i gymhwyso** eu sgiliau. Felly, mantais o hyn yw'r cyfleoedd mae'r model hwn yn darparu gan mae modd defnyddio dau Faes Dysgu i addysgu a **chryfhau** sgiliau mewn thema benodol. Ychwanegir wrth i'r plant gymhwyso eu sgiliau maent yn datblygu **cynnnydd** yn y sgiliau hefyd gan eu bod yn deall sut i gymhwyso'r sgil a sut i ddefnyddio mewn cyd-destunau amrywiol.

Cyfyngiadau

> Wrth addysgu'r model hwn, mae angen ystyried gwerth y pynciau all-graidd megis **Y Dyniaethau, Y Celfyddydau, Iechyd a Lles** a.y.b.. oherwydd gall athrawon gor-ddefnyddio'r meysydd hyn wrth addysgu'n drawsgwricwlaidd. Pryderir bod y pynciau yn **colli eu gwerth** yn eu sgiliau a'r cyfleoedd i **gymhwyso** (**Barnes**, 2015) oherwydd yr effaith o ddefnyddio'r meysydd hyn fel y "**Pwnc B**" i gefnogi'r dysgu yn hytrach na wella ymwybyddiaeth y plant gan ddefnyddio fel y "**Pwnc A**".

> Mae addysgu'r model hwn yn ddibynadwy ar **wybodaeth pwnc** athrawon ym mhob maes dysgu, oherwydd yr angen i **ddefnyddio a chymhwyso** gwybodaeth a **chysylltu'n effeithiol** gyda meysydd dysgu eraill. Dywed **Kerry** (2011) bod gwneud cysylltiadau effeithiol ar draws y meysydd dysgu yn **sicrhau cyfleoedd cyfoethog** i blant **gymhwyso'r** sgiliau a ddysgwyd. Mae angen i'r athro magu **dealltwriaeth dda** ym mhob maes dysgu er mwyn defnyddio dau faes dysgu llaw yn llaw er mwyn **cryfhau sgiliau plant**.

> Un anfantais o'r model hwn yw bod **dilyniant pwnc** yn anodd ei gyrraedd, oherwydd yr effaith o ddefnyddio dim ond **dau Faes Dysgu** o fewn y model (**Barnes**, 2015). Awgrymir bod defnyddio dau faes dysgu yn **rhwystredig** o ran dilyniant pwnc oherwydd mae'r ffocws ar un maes blaenaf a maes arall i gefnogi'r sgiliau a ddysgir. Noda **Grigg** (2015) bod angen **cynllun penodol** er mwyn **sicrhau dilyniant** o fewn y thema ddewisol, yn enwedig mewn pynciau all-graidd, oherwydd y diffyg dilyniant y sgiliau yn y cwricwlwm. Awgrymir hyn bod meysydd dysgu megis **Y Dyniaethau, Y Celfyddydau, Iechyd a Lles** a.y.b.. yn anodd i greu dilyniant oherwydd nid os strwythur clir yn y cwricwlwm presennol i ganiatâi dilyniant.

Sgiliau ADCDF

>Cysylltiad i fodel '**Hierarchaidd**' a model '**Thema Seiliedig**'.

>**Thema - Iechyd:** Gofalu amdanynt eu hunain ac am eraill.

>Darparir **cyfleoedd** i ofalu am eu hiechyd eu hunain ac am iechyd pobl eraill; deall cynhwysion sylfaenol ffordd iach o fyw; gwneud dewisiadau iach (APADGOSb, 2008, tt. 28 - 30)